Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Y Castell
# Heol Cilgant
# Caerfilli
# CF83 1WH

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 06/12/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg y Castell yng nghysgod castell Caerffili ac yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol sir Caerffili. Mae 444 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed, gan gynnwys 64 plentyn meithrin, ar y gofrestr, a chânt eu haddysgu mewn 15 ddosbarth.

Mae tua 20% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a thua 18% o'r disgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol. Ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Tua 23% o’r disgyblion sy’n dod o gartrefi lle y siaredir y Gymraeg. Nid oes disgyblion sydd â’r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt ac ychydig iawn o ddisgyblion sydd yn dod o gefndir lleiafrif ethnig.

Cychwynnodd y pennaeth presennol yn ei swydd ym mis Medi 2009. Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym Mehefin 2010.

Ar hyn o bryd, mae’r ysgol yn ysgol arloesi ac mae’n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau yn ymwneud â’r cwricwlwm a/neu ddysgu proffesiynol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Y Castell yn 2016-2017 yw £2,931. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Nghaerffili yw £4,854 a'r lleiafswm yw £2,696. Mae’r ysgol yn safle 59 o'r 75 ysgol gynradd yng Nghaerffili o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd buddiol yn ystod eu hamser yn yr ysgol
- medrau llafar, gwrando, darllen ac ysgrifennu llawer o'r disgyblion yn dda yn y Gymraeg a Saesneg
- llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol ar draws y cwricwlwm
- dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach yn dda
- y cyngor ysgol yn weithgar iawn a'u penderfyniadau yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion
- rhan fwyaf y disgyblion yn gwrtais a gofalgar
- cydweithio effeithiol iawn rhwng athrawon a'r staff cymorth dysgu sy'n llwyddo i ddarparu cefnogaeth gyfoethog, yn arbennig i'r grwpiau bregus
- disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau
- yr ysgol yn gymuned hapus a hynod ofalgar lle mae disgyblion yn ddiogel

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel, profiadau dysgu cyfoethog ynghyd â hapusrwydd a lles pob disgybl
- ffocws arbennig ar godi dyheadau disgyblion bregus a'u rhieni sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion
- awyrgylch cynhaliol lle mae disgyblion a staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi
- bob aelod o staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau
- trefniadau rheoli perfformiad yn eu lle sy'n gosod targedau perthnasol a phersonol er mwyn datblygu athrawon ymhellach
- arweinwyr wedi meithrin amrediad eang o bartneriaethau hynod effeithiol sy'n cyfrannu'n helaeth tuag at wella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion a chodi safonau
- hunanarfarnu'r ysgol yn adnabod cryfderau'r ysgol yn dda a'r hyn sydd angen ei wella
- arweinwyr yn rheoli adnoddau'n effeithiol

## Argymhellion

A1 Parhau i leihau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad a phresenoldeb y disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim â’u cymheiriaid

A2 Sicrhau bod disgyblion mwy abl yn cael eu herio’n gyson ar draws yr ysgol

A3 Lledaenu’r arfer dda a rhagorol yn yr addysgu ar draws yr ysgol

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio’r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda'r medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n agos i'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Gan ystyried eu man cychwyn, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dod i gyfathrebu'n dda yn y Gymraeg yn fuan ar ôl dechrau'r ysgol. Maent yn gwrando'n dda ar oedolion ac ar ei gilydd ac yn meithrin patrymau iaith safonol yn gynyddol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn siarad Cymraeg yn rhugl ac yn hyderus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer yn gallu cynnal sgyrsiau estynedig ac esbonio eu gwaith gyda brwdfrydedd yn y Gymraeg a Saesneg. Er enghraifft, wrth drafod menter entrepreneuriaeth ar gyfer y ffair Nadolig neu fynegi barn wrth drafod eu hoff lyfr Roald Dahl.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gallu darllen yn y Gymraeg gyda mynegiant ystyrlon, gan dalu sylw i atalnodi sylfaenol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn rhugl at amrywiaeth o bwrpasau yn y ddwy iaith. Maent yn gallu trafod eu darllen yn dda ac yn gallu ymchwilio i, a darganfod, gwybodaeth o lyfrau ffeithiol a'r we yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf yn medru ateb cwestiynau ynglŷn â chynnwys testunau gan gyfeirio at eu hoff awduron a llyfrau, gan ddangos diddordeb yn yr hyn y maent wedi ei ddarllen. Mae llawer yn defnyddio geirfa briodol wrth gyfeirio at y broliant, yr awdur a theitl y llyfr. Gall y rhan fwyaf ddarllen yn glir gyda mynegiant a rhuglder sydd yn cyfateb i'w hoedran a'u gallu.

Ar draws yr ysgol, yn gyffredinol, mae ansawdd ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn dda. Erbyn diwedd blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu yn ddiddorol mewn gwahanol ffurfiau at ystod o ddibenion ar draws y cwricwlwm. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gallu creu gwaith diddorol a defnyddio atalnodi priodol a chystrawennau cadarn, gan ailddrafftio eu gwaith yn effeithiol yn y ddwy iaith. Er enghraifft, wrth ffurfio llythyr perswâd at rieni i atal ysmygu. Caiff hyn ei ddatblygu ymhellach ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth iddynt ysgrifennu adroddiad papur newydd yn seiliedig ar ymweliad i barc antur. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn ysgrifennu'n ymestynnol yn ddigon cyson ar draws yr ysgol ac mae safonau llawysgrifen a chyflwyniad gwaith ychydig o ddisgyblion yn anghyson.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae datblygiad mathemategol rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarn iawn. Gall y rhan fwyaf gasglu gwybodaeth yn llwyddiannus gan drosglwyddo'r wybodaeth honno yn effeithiol i ffurf graff. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen, deall ac ysgrifennu rhifau hyd at 100 a mwy yn gywir. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd yn hyderus ac effeithiol ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft wrth ddatrys problemau arian hyd at bunt yn siop Rala Rwdins. Maent yn defnyddio unedau safonol i fesur hyd gwrthrychau mewn centimetrau ac adnabod 'hanner awr wedi', 'chwarter wedi' a 'chwarter i' ar gloc analog a digidol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan rhan fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o strategaethau i ddatrys problemau mathemategol ac yn fedrus wrth amcangyfrif, gan resymu eu hatebion yn aeddfed. Gall y rhan fwyaf ddadansoddi data, datrys problemau ffracsiynau a chanrannau, yn ogystal â mesur cynhwysedd ac arwynebedd yn briodol i'w hoed a'u gallu. Mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn effeithiol ar draws ystod o bynciau, er enghraifft wrth gymharu cyflymder dŵr ynghanol, ac wrth lan, yr afon.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol yn y meysydd dysgu ac ar draws y cwricwlwm. Mae eu medrau cyfathrebu yn cynyddu'n gyson o'r Cyfnod Sylfaen i ddiwedd cyfnod allweddol 2. Drwy hyn, mae disgyblion yn gallu cyfuno llun a thestun yn syml yn y Cyfnod Sylfaen ac, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, maent yn defnyddio eu medrau meddwl yn llwyddiannus iawn i greu fideos ac animeiddiadau diddorol. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn ennill dealltwriaeth gymwys o sut i ddefnyddio taenlenni wrth fodelu gwerthiant siop. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn cynhyrchu na defnyddio cronfeydd data i ddadansoddi data a dilyn llwybrau ymholi penodol.

Yn y Cyfnod Sylaen dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion ar y deilliant disgwyliedig mewn mathemateg a llythrennedd gan amlaf wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg. Nid yw'r tueddiadau gystal ag ysgolion tebyg o ran y deilliant uwch, gyda'r ysgol yn y 25% isaf neu'r 50% is am lawer o'r cyfnod.

Yn ystod yr un cyfnod, ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig yn y ddwy iaith a gwyddoniaeth gan amlaf yn gosod yr ysgol yn uwch na'r canolrif o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae mathemateg yn dangos amrywiaeth sylweddol rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf o ysgolion tebyg. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae perfformiad ar y lefel uwch na'r disgwyl yn y pynciau hyn yn y ddwy flynedd ddiwethaf o dan y canolrif o gymharu ag ysgolion tebyg.

Yn gyffredinol dros amser, nid yw disgyblion sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn perfformio gystal â'u cymheiriaid. Yn ddiweddar iawn, mae'r bwlch ar y deilliant a'r lefel ddisgwyliedig rhwng y disgyblion hyn yn lleihau. Fodd bynnag, mae bwlch yn gyson o ran cyrraedd y deilliant neu'r lefel uwch.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae merched ar y cyfan yn perfformio'n well na'r bechgyn ar y deilliant disgwyliedig mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol. Yr un yw'r patrwm hefyd am berfformiad mewn lythrennedd ar y deilliant uwch. Yng nghyfnod allweddol 2, o ran cyrraedd y lefel ddisgwyliedig, mae merched yn tueddu i berfformio'n well na bechgyn yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yn y Gymraeg a mathemateg. O ran cyrraedd y lefelau uwch, yn gyffredinol, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn ym mhob pwnc dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

**Lles: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn teimlo'n ddiogel iawn yn yr ysgol ac yn teimlo'n gyfforddus yn troi at unrhyw aelod o staff neu ddisgybl arall ym mlwyddyn 6 am gymorth pan fo angen. Maent yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd cadw'n iach a bwyta'n iach. Mae llawer o ddisgyblion yn cadw'n heini yn rheolaidd drwy amryw o weithgareddau allgyrsiol megis dawnsio, tennis bwrdd, hoci a phêl droed.

Mae ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda iawn. Maent yn ofalgar o’i gilydd ac yn dangos parch tuag at eraill a chyd-ddisgyblion. Ar y cyfan, mae pob disgybl yn serchus ac yn barod i siarad gyda chyfoedion, staff ac ymwelwyr. Fodd bynnag, mae ymddygiad ychydig iawn o ddisgyblion yn golygu nad ydynt yn gwneud y cynnydd disgwyliedig yn ystod y gwersi.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cydweithio’n effeithiol ac yn dangos lefel dda o ddyfalbarhad yn y gwersi. Mae gallu ychydig iawn o ddisgyblion i weithio’n annibynnol yn parhau i ddatblygu. Trwy fod yn ymwybodol o’u targedau, mae llawer o’r disgyblion yn gwybod pa mor dda y maent yn cyflawni a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yr ysgol yn barod iawn i gymryd cyfrifoldeb a chynnig syniadau am faterion sy’n ymwneud â’r ysgol. Mae’r cyngor ysgol yn weithgar iawn ac mae penderfyniadau yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion. Enghraifft o hyn yw’r ystod o weithgareddau y mae’r disgyblion yn eu gwneud yn ystod yr awr ginio, megis tennis bwrdd a chrosio.

Mae’r disgyblion yn chwarae rhan bwysig yn y gymuned leol. Trwy gymryd rhan a chyfrannu at ystod o ddigwyddiadau, cyngherddau a gweithgareddau cymdeithasol, mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth gref o’u hardal a’r gymuned leol. Er enghraifft, maent yn cefnogi gweithgareddau mentrau cymunedol i hybu defnydd o’r Gymraeg trwy brosiect ‘Llysgenhadon Ysbyty’r Glowyr’.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae lefelau presenoldeb disgyblion yn anghyson, ond yn dangos cynnydd yn ddiweddar, gan osod yr ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg. Fodd bynnag, nid yw presenoldeb disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim gystal â’u cymheiriaid yn yr ysgol. Yn gyffredinol, mae lefelau prydlondeb disgyblion yn dda.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? | Da |
| --- | --- |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a’r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn effeithiol. Mae’r cynlluniau’n darparu ystod o brofiadau dysgu diddorol a chyfoethog sy’n ennyn diddordeb y disgyblion yn dda, Er enghraifft, wrth gynnwys digon o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn yr awyr agored. Mae’r athrawon wedi cyfoethogi cynllun masnachol trwy roi naws lleol a Chymreig iddo, er enghraifft wrth ychwanegu idiomau ac ymadroddion Cymraeg ar gyfer pob thema. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau llafar y disgyblion. Yn ogystal, mae’r ysgol wedi cychwyn mynd i’r afael â darparu ar gyfer y cwricwlwm ‘Dyfodol Llwyddiannus’ newydd wrth sefydlu timau o athrawon i ffocysu ar y meysydd dysgu.

Mae cyfleoedd cyson i ddisgyblion fwynhau cyrsiau preswyl a chydweithio’n agos gyda chlwstwr ysgolion Cymraeg y cwm. Mae hyn yn ehangu eu profiadau, yn rhoi profiadau ymarferol i ddatblygu medrau meddwl trwy weithgareddau antur a datblygu medrau cymdeithasol pwysig.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd mewn cyd-destunau pwrpasol ar draws y cwricwlwm. Ar y cyfan, mae'r ysgol yn sicrhau bod y rhan fwyaf o fedrau TGCh yn cael eu datblygu'n dda. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cael cyfleoedd i greu a defnyddio bas data.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang iawn o brofiadau cyfoethog er mwyn i bob disgybl gael cyfleoedd priodol i ddatblygu eu medrau Cymraeg. Mae bron pob aelod o staff yn atgyfnerthu hyn trwy ddefnyddio Cymraeg raenus. Mae gan yr ysgol ethos Cymreig naturiol sy'n ennyn balchder y disgyblion yn yr iaith Gymraeg a threftadaeth Cymru. Mae'r ysgol yn manteisio ar lawer o adnoddau lleol a chenedlaethol er mwyn ehangu dealltwriaeth y disgyblion o Gymru a'i diwylliant. Mae'r profiadau hyn yn greiddiol i fywyd yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o gynaliadwyedd a gwarchod yr amgylchfyd yn effeithiol iawn. Trwy brosiectau ailgylchu cyson, gweithgareddau ysgogol yn yr ardd a chydweithio agos gyda rhieni, mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr iawn ar sut i barchu a defnyddio'r amgylchfyd. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang yn fuddiol, ac yn cynnwys astudio arferion crefyddol ar draws y byd a phrosiect rhyngwladol ar rifedd.

**Addysgu: Da**

Ar draws yr ysgol, mae llawer o athrawon yn darparu profiadau diddorol sy'n ysgogi'r disgyblion yn llwyddiannus i ddysgu ac sy'n adeiladu'n addas ar ddysgu blaenorol y disgyblion. Yn yr ychydig iawn o enghreifftiau o addysgu rhagorol, mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel iawn o'u disgyblion. Maent yn annog y disgyblion i herio eu hunain a chymryd cyfrifoldeb am eu dysgu, yn ogystal â'i wella'n barhaus. O ganlyniad, mae'r disgyblion i gyd ar dasg, yn gallu trafod eu dysgu'n synhwyrol iawn ac yn awyddus i wella. Yn yr achosion hyn, mae disgyblion yn cyflawni gwaith da iawn o fewn gwersi.

Mae perthynas waith effeithiol rhwng y rhan fwyaf o staff a disgyblion. Mae hyn yn cefnogi ymddygiad ac agweddau da iawn tuag at ddysgu ymhlith y rhan fwyaf o ddisgyblion. Yn gyffredinol, mae athrawon yn rhoi cyflwyniadau bywiog sy'n ennyn diddordeb y disgyblion. Mae holl athrawon y Cyfnod Sylfaen yn darparu cwricwlwm ymarferol, o fewn a thu allan i'r dosbarth, sy'n ennyn chwilfrydedd y disgyblion wrth iddynt fwynhau dysgu drwy chwarae. Fodd bynnag, mae gorddefnydd o daflenni gwaith yn cyfyngu'n ormodol ar gyfleoedd i ymestyn disgyblion mwy abl.

Mae cydweithio effeithiol iawn rhwng athrawon a'r staff cymorth dysgu, sy'n llwyddo i ddarparu cefnogaeth gyfoethog i'r grwpiau bregus a'r rhan fwyaf o unigolion. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion hynny yn gwneud cynnydd pwrpasol yn y gwersi ac yn y grwpiau ymyrraeth. Fodd bynnag, nid yw'r tasgau a osodir yn herio'r disgyblion mwy galluog yn ddigon cyson.

Mae'r ysgol wedi sefydlu systemau cadarn ar gyfer olrhain cynnydd pob disgybl a thargedu cymorth, lle bo'n briodol. Mae hyn yn golygu bod athrawon yn gallu adnabod grwpiau o ddisgyblion sydd yn tanberfformio a theilwra'r ddarpariaeth ar eu cyfer. Yn dilyn hyfforddiant, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio nod y wers a meini prawf llwyddiant yn effeithiol. Mae mwyafrif yn holi'n fedrus er mwyn annog

disgyblion i feddwl a chymryd cyfrifoldeb am eu dysgu. Maent yn arddangos gwaith unigolion i'r dosbarth er mwyn enghreifftio gwaith da ac yn rhoi adborth ffurfiannol ar lafar yn ystod gwersi. Mae'r athrawon yn cynnig adborth llafar defnyddiol yn ystod gwersi ac yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd, gan gynnig sylwadau adeiladol ar sut i wella'r gwaith. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth ysgrifenedig.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am gynnydd pob disgybl gan ddangos y ffordd ymlaen iddynt yn glir.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a hynod ofalgar lle mae disgyblion yn ddiogel. Mae pwyslais cryf ar hybu gwerthoedd ac mae hyn yn hyrwyddo ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo bwyta ac yfed iach ynghyd ag iechyd a lles y disgyblion yn llwyddiannus. Caiff iechyd a ffitrwydd eu hyrwyddo'n ddyddiol trwy amrywiaeth o weithgareddau awr ginio a chlybiau allgyrsiol. Mae hyn hefyd yn cyfrannu at ymddygiad da yn ystod yr awr ginio.

Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer cefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae athrawon yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac mae arweinwyr yn darparu cefnogaeth gadarn yn fuan. Mae'r rhain yn cyfrannu at wella safonau cyflawniad y disgyblion. Mae cynlluniau addysg unigol a 'chynlluniau chwarae' yn cynnwys targedau clir ac yn cael eu trafod yn rheolaidd gyda'r rhieni a'r disgyblion. Mae arweinwyr anghenion dysgu ychwanegol yn monitro cynlluniau a chynnydd y disgyblion yn gyson. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau unigol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gyda llawer o asiantaethau arbenigol, fel gwasanaeth ieuenctid Caerffili. O ganlyniad, mae teuluoedd bregus yn derbyn cynhaliaeth werthfawr. Mae hyn yn cyfrannu at les y disgyblion ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu hyder a'u cyflawniad.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynhwysol, croesawgar, cynnes a gofalgar yn bodoli yn yr ysgol gyda disgyblion yn croesawu ymwelwyr gyda gwên ac yn barod i sgwrsio. Mae pwyslais gwerthfawr ar yr hawl i fod yn hapus ac ar arwain trwy esiampl. Mae polisïau a gweithdrefnau clir yn sicrhau cyfle cyfartal i bawb, ac yn hybu cydraddoldeb a dealltwriaeth o amrywiaeth a thegwch yn llwyddiannus. Mae'r staff yn sicrhau cyfle cyfartal i ddisgyblion, gyda merched a bechgyn yn cael cyd-chwarae pêl-droed, pêl-rwyd a rygbi.

Mae adeiladau helaeth yr ysgol mewn cyflwr da ac yn addas ar gyfer nifer y disgyblion. Caiff y safle a'r adeiladau eu cadw'n lan, graenus a diogel. Gwneir defnydd pwrpasol o'r ardal allanol, gan gynnwys yr ardd a'r theatr, ar gyfer hyrwyddo

egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a datblygu medrau rhifedd a llythrennedd disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu pwrpasol sy'n ysgogi'r disgyblion i lwyddo. Mae'r staff yn gwneud defnydd da o'r gofod a'r adnoddau sydd ar gael ac mae arddangosfeydd yn creu awyrgylch dysgu lliwgar sy'n dathlu gwaith y disgyblion a'u cynorthwyo i weithio'n annibynnol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn meithrin ysbryd cydweithio effeithiol ymysg staff yr ysgol. Mae ganddi weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel, profiadau dysgu cyfoethog ynghyd â hapusrwydd a lles pob disgybl. Mae'n llwyddo i rannu'r weledigaeth â'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr yn llwyddiannus. Mae ffocws arbennig ar godi dyheadau disgyblion bregus a'u rhieni ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion. Mae'r pennaeth wedi creu awyrgylch cynhaliol lle mae disgyblion a staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. O ganlyniad, mae ethos o gydweithio agos yn bodoli er lles y disgyblion.

Mae'r staff yn glir ynghylch eu rôl a'u dyletswyddau ac mae'r pennaeth yn rhannu cyfrifoldebau ymhlith yr uwch dîm rheoli'n effeithiol. Fodd bynnag, megis dechrau y mae rôl yr arweinwyr canol. Defnyddir cryfderau a chymwysterau unigol staff yn bwrpasol, er enghraifft i rannu arfer dda o ran asesu ar gyfer dysgu. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn effeithiol ac yn datblygu'r athrawon ymhellach gan gefnogi disgyblion yn unol â thargedau'r cynllun gwella.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llwyddiannus i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, drwy defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i godi safonau a lles a chychwyn ymateb i argymhellion y cwricwlwm newydd yn 'Dyfodol Llwyddiannus'.

Mae'r corff llywodraethol yn gydwybodol a chefnogol iawn ac yn cymryd eu rôl i herio'r ysgol o ddifri. Maent yn sicrhau bod blaenoriaethau yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn llwyddiannus wrth gynnal safonau a sicrhau darpariaeth dda. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol tuag at wella'r ddarpariaeth a sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r pennaeth wedi llwyddo i sefydlu proses hunanarfarnu effeithiol, gan rannu cyfrifoldebau ymysg yr arweinwyr eraill. Mae rhaglen monitro drylwyr sy'n ystyried ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys arsylwadau dosbarth, craffu ar waith disgyblion a chynlluniau athrawon ynghyd â dadansoddiad manwl o ddata perfformiad disgyblion. Mae'r gweithgareddau monitro yn systematig, yn cynnwys casglu barn rhieni a mewnbwn penodol gan y disgyblion drwy'r cyngor ysgol. Mae hyn yn un o gryfderau'r ysgol ac yn sicrhau bod gan y disgyblion lais clir o ran gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau.

Mae'r arweinwyr yn llunio cyfres o adroddiadau monitro defnyddiol, sy'n cyfrannu i'r adroddiad terfynol. Mae'r adroddiad hwn, er ychydig yn ddisgrifiadol mewn

adrannau, yn dangos bod gan yr arweinwyr ddarlun clir o gryfderau'r ysgol a'r materion sydd angen eu gwella.

Mae'r cynllun gwella ysgol yn fanwl ac yn nodi targedau perthnasol a phenodol ar gyfer datblygu blaenoriaethau a sefydlu prosesau newydd. Mae cyswllt amlwg rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun yn cynnwys camau gweithredu manwl, a meini prawf llwyddiant mesuradwy sy'n canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau disgyblion. Mae'r prosesau gwella ansawdd wedi sicrhau bod yr arweinwyr wedi ymateb yn dda i argymhellion yr arolygiad blaenorol. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau hyn wedi llwyddo i gynyddu'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y deilliannau a'r lefelau uwch yn ddigon effeithiol eto.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn gweithio'n hynod effeithiol mewn ystod dda o bartneriaethau buddiol sy'n ymestyn profiadau dysgu a lles y disgyblion yn llwyddiannus iawn.

Mae partneriaeth werthfawr yn bodoli rhwng yr ysgol â'r rhieni. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â rhieni trwy ystod o wahanol ffyrdd yn briodol. Er mwyn galluogi'r rhieni i wybod sut i gefnogi dysgu eu plant, mae'r ysgol yn cynnal amryw o sesiynau fel hyrwyddo darllen yn y cartref ac e-Ddiogelwch. Mae hyn yn cael effaith bositif ar gyrhaeddiad a lles y disgyblion a dealltwriaeth y rhieni. Mae ymroddiad rhieni i gefnogi'r ysgol yn nodwedd gref. Er enghraifft, trwy redeg amrywiol brosiectau ailgylchu yn gyson sy'n cynyddu dealltwriaeth y disgyblion o'i bwysigrwydd. Mae'r gymdeithas rieni yn weithgar iawn ac yn codi arian er budd y disgyblion er enghraifft trwy brynu cyfarpar i wella cyfleoedd chwarae tu allan.

Mae'r ysgol yn gweithio'n hynod effeithiol a gofalgar gyda theuluoedd bregus. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd i gefnogi teuluoedd unigol a hyrwyddo lles corfforol ac emosiynol y disgyblion. Gweithia'r ysgol yn agos iawn gyda gwasanaethau cymdeithasol, tîm o amgylch y teulu, iechyd, Barnardos a'r heddlu. Mae hyn yn cyfrannu at les y disgyblion ac yn cael effaith gadarnhaol ar hyder a chyflawniadau'r disgyblion.

Mae partneriaeth arbennig rhwng yr ysgol â'r gymuned leol. Mae hyn yn codi balchder y disgyblion am eu bro a'u hetifeddiaeth yn llwyddiannus. Enghraifft o hyn yw cefnogi gweithgareddau mentrau cymunedol i hybu defnydd o'r Gymraeg trwy brosiect Llysgenhadon Ysbyty'r Glowyr. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da iawn o'r castell gyferbyn i hybu datblygiad creadigol y disgyblion mewn barddoniaeth ac arlunio. Mae aelodau o'r gymuned yn ymweld yn rheolaidd â'r ysgol ac mae'r ysgol yn cefnogi banciau bwyd lleol. Mae partneriaeth gref rhwng yr ysgol a'r capeli lleol ac mae corau'r ysgol yn ymweld yn gyson â chanolfannau lleol eraill, gan elwa o brofiadau i berfformio a chystadlu, ac i gynnal cyngherddau gyda chorau cenedlaethol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda chylchoedd meithrin yr ardal i sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n gyflym yn y dosbarth meithrin. Yn dilyn ymweliad â Chanolfan Rhagoriaeth y Blynyddoedd Cynnar yn Lloegr, mae'r ysgol wedi mabwysiadu egwyddorion cadarn wrth anwytho plant meithrin. Wrth ddod i adnabod y dysgwyr a'u teuluoedd yn dda iawn, mae'r ysgol yn sicrhau gofal a magwraeth o ansawdd uchel iawn. O ganlyniad, mae'r dysgwyr ifanc yn ymgartrefu'n hyderus ar ddechrau

eu taith addysgiadol. Mae'r arfer hon wedi lledaenu ar draws sefydliad gofal plant Menter Iaith Caerffili a gynhelir ar safle'r ysgol. Mae rhannu profiadau ag eraill wedi cryfhau'r ddarpariaeth ar gychwyn yr ysgol i safon uchel iawn ac wedi cyfrannu at sicrhau bod ethos y Cyfnod Sylfaen yn parhau yn gadarn hyd at ddiwedd blwyddyn 2. Mae gan yr ysgol bartneriaethau addysgeg arbennig gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg de ddwyrain Cymru. Trwy arwain prosiect 'Anelu at Ragoriaeth' yn y Gymraeg, mae'r ysgol yn llwyddo i ledaenu arfer dda addysgeg ar draws siroedd y consortiwm ac ymhellach. Mae hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar safonau addysgu a dysgu o fewn yr ysgol ac ymhellach. O ganlyniad, mae disgyblion yn siarad yn wybodus am eu taith ddysgu a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Mae'r ysgol yn datblygu'r prosiect ymhellach eleni i gynnwys rhaglen datblygiad proffesiynol i gynorthwywyr addysgu ar draws y consortiwm.

Mae ystod ac ansawdd y trefniadau trosglwyddo ar gyfer y disgyblion hŷn i'r ysgol uwchradd yn dda ac mae trefniadau ychwanegol arbennig ar gyfer disgyblion bregus. Maent yn cael eu paratoi'n drylwyr ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r athrawon yn cydweithio'n agos â'r ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd yn y dalgylch i gyd-safoni a chymedroli asesiadau'r athrawon

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau yn llwyddiannus i gefnogi disgyblion a sicrhau gwelliant. Mae gan yr ysgol nifer buddiol o athrawon a chynorthwywyr dysgu i ymdrin â phob agwedd o'r cwricwlwm. Mae'r staff cyfan yn cefnogi'i gilydd yn dda ac yn cydweithio'n gyson i gefnogi'r disgyblion. Mae'r cynorthwywyr dysgu yn defnyddio'u harbenigedd i gefnogi grwpiau penodol o ddisgyblion yn llwyddiannus. Mae gan yr ysgol weithdrefnau cynhwysfawr sy'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus athrawon a chynorthwywyr. Mae amcanion rheoli perfformiad pwrpasol a chlir yn targedu sylw da at ofynion ysgol gyfan, codi safonau disgyblion ac anghenion proffesiynol y staff.

Mae trefniadau ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu yn bodloni gofynion statudol ac mae athrawon yn defnyddio'r amser yn effeithiol i roi ystyriaeth dda i gynnydd disgyblion. Mae'r ysgol hefyd yn meithrin cydweithio effeithiol ag ysgolion eraill y clwstwr o ysgolion Cymraeg. Trwy hyn, mae cyfleoedd buddiol i rannu profiadau ac arfer dda i wella'r ddarpariaeth a chodi safonau.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn rheoli'r gyllideb ac yn monitro effaith gwariant yn drylwyr. Mae gwariant yr ysgol yn cysylltu'n dda â'i chynlluniau ar gyfer gwella. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r Grant Amddifadedd Disgyblion er mwyn codi safonau a lles disgyblion. Enghraifft ddychmygus o hyn yw'r trefniant i deuluoedd ymweld â phrifysgol leol er mwyn codi dyheadau.

O ystyried deilliannau disgyblion, mae'r ysgol yn sicrhau gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6762374 - Y G G Y Castell**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 454 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 20.7 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 55 | 61 | 58 | 59 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 78.2 | 83.6 | 87.9 | 86.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 55 | 61 | 58 | 59 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 87.3 | 91.8 | 93.1 | 91.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 16.4 | 32.8 | 24.1 | 30.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 2 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 55 | 61 | 58 | 59 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 89.1 | 85.2 | 91.4 | 94.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 18.2 | 29.5 | 24.1 | 30.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 | 3 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 55 | 61 | 58 | 59 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 87.3 | 96.7 | 96.6 | 94.9 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 12.7 | 41.0 | 43.1 | 30.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6762374 - Y G G  Y Castell**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 454 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 20.7 |
| Grŵp PYD | 3 (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 26 | 29 | 43 | 43 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 76.9 | 93.1 | 88.4 | 90.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 | 2 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 29 | 43 | 43 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 92.3 | 93.1 | 88.4 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 34.6 | 51.7 | 32.6 | 23.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 4 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 29 | 43 | 43 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 92.3 | 93.1 | 90.7 | 97.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 23.1 | 41.4 | 34.9 | 27.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 29 | 43 | 43 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 80.8 | 100.0 | 93.0 | 90.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 34.6 | 55.2 | 34.9 | 37.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 29 | 43 | 43 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 96.2 | 100.0 | 90.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 26.9 | 48.3 | 32.6 | 34.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 3 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 103 | 101<br>98%<br>98% | 2<br>2%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 103 | 81<br>79%<br>92% | 22<br>21%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 103 | 101<br>98%<br>97% | 2<br>2%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 103 | 94<br>91%<br>97% | 9<br>9%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 103 | 101<br>98%<br>96% | 2<br>2%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 103 | 97<br>94%<br>96% | 6<br>6%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 103 | 102<br>99%<br>99% | 1<br>1%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 103 | 96<br>93%<br>98% | 7<br>7%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 102 | 80<br>78%<br>91% | 22<br>22%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 103 | 95<br>92%<br>95% | 8<br>8%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 102 | 53<br>52%<br>77% | 49<br>48%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 103 | 75<br>73%<br>84% | 28<br>27%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 131 | 66 | 61 | 4 | 0 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 50% | 47% | 3% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 130 | 85 | 43 | 2 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 65% | 33% | 2% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 130 | 88 | 38 | 3 | 1 | 2 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 68% | 29% | 2% | 1% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 127 | 67 | 59 | 1 | 0 | 5 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 53% | 46% | 1% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 115 | 47 | 62 | 6 | 0 | 17 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 41% | 54% | 5% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 123 | 58 | 62 | 3 | 0 | 8 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 47% | 50% | 2% | 0% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 130 | 77 | 51 | 2 | 0 | 2 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 59% | 39% | 2% | 0% | | |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 112 | 42 | 61 | 7 | 2 | 20 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 38% | 54% | 6% | 2% | | |
| | | 49% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 117 | 53 | 58 | 6 | 0 | 15 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 45% | 50% | 5% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 126 | 81 | 43 | 1 | 1 | 6 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 64% | 34% | 1% | 1% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 127 | 68 | 57 | 1 | 1 | 5 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 54% | 45% | 1% | 1% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 97 | 43 | 49 | 3 | 2 | 33 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 44% | 51% | 3% | 2% | | |
| | | 56% | 39% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 126 | 32 | 63 | 25 | 6 | 6 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 25% | 50% | 20% | 5% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 130 | 57<br>44% | 54<br>42% | 11<br>8% | 8<br>6% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 117 | 42<br>36% | 54<br>46% | 16<br>14% | 5<br>4% | 15 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 124 | 57<br>46% | 63<br>51% | 4<br>3% | 0<br>0% | 8 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 70 | 41<br>59% | 24<br>34% | 4<br>6% | 1<br>1% | 59 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 129 | 65<br>50% | 56<br>43% | 8<br>6% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 127 | 60<br>47% | 59<br>46% | 7<br>6% | 1<br>1% | 4 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Maldwyn Pryse | Arolygydd Cofnodol |
| Buddug Bates | Arolygydd Tîm |
| Nia Vaughan | Arolygydd Tîm |
| Robert Williams | Arolygydd Tîm |
| Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| Gareth Owen | Arolygydd Cymheiriaid |
| Helen Nuttall | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.